# Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020

**2020 dsc 2**

*Cymhwyso i'r Goron*

## 9 Pŵer yr Uchel Lys i ddatgan bod gweithred neu anweithred y Goron yn anghyfreithlon

Caiff yr Uchel Lys ddatgan bod unrhyw weithred neu anweithred y Goron yn anghyfreithlon pe byddai'r Goron yn atebol amdani o ran cyfraith trosedd o dan y Ddeddf hon oni bai am adran 28(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) (nid yw Deddfau'r Cynulliad yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 9 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

## 10 Tir y Goron: pwerau mynediad

(1) Ni chaniateir arfer y pwerau a roddir gan yr Atodlen (pwerau mynediad etc.) mewn perthynas â thir y Goron ond gyda chydsyniad yr awdurdod priodol.

(2) Yn yr adran hon—

(a) ystyr "tir y Goron" yw tir y mae buddiant ynddo—

(i) yn perthyn i Ei Mawrhydi yn hawl y Goron neu yn hawl Ei hystad breifat,

(ii) yn perthyn i Ei Mawrhydi yn hawl Dugiaeth Caerhirfryn,

(iii) yn perthyn i Ddugiaeth Cernyw, neu

(iv) yn perthyn i un o adrannau'r llywodraeth neu'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer Ei Mawrhydi at ddibenion un o adrannau'r llywodraeth;

(b) ystyr "awdurdod priodol"—

(i) os yw'r tir yn perthyn i Ei Mawrhydi yn hawl y Goron, yw Comisiynwyr Ystad y Goron neu un o adrannau eraill y llywodraeth sy'n rheoli'r tir o dan sylw;

(ii) os yw'r tir yn perthyn i Ei Mawrhydi yn hawl Dugiaeth Caerhirfryn, yw Canghellor y Ddugiaeth;

(iii) os yw'r tir yn perthyn i Ddugiaeth Cernyw, yw'r person hwnnw y mae Dug Cernyw, neu'r person sy'n meddu ar Ddugiaeth Cernyw am y tro, yn ei benodi;

(iv) os yw'r tir yn perthyn i un o adrannau'r llywodraeth neu'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer Ei Mawrhydi at ddibenion un o adrannau'r llywodraeth, yw'r adran honno.

(3) Os oes unrhyw gwestiwn yn codi o dan yr adran hon ynghylch pa awdurdod yw'r awdurdod priodol mewn perthynas ag unrhyw dir, mae'r cwestiwn hwnnw i gael ei gyfeirio at y Trysorlys, a'r Trysorlys biau'r penderfyniad terfynol.

(4) Yn yr adran hon, mae'r cyfeiriad at ystadau preifat Ei Mawrhydi i'w ddehongli yn unol ag adran 1 o Ddeddf Ystadau Preifat y Goron 1862 (p. 37).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 10 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020, Croes Bennawd: Cymhwyso i'r Goron.